

Canllaw ar gyfer eich cynllun ysgol teithio llesol

Mae Cynlluniau Ysgolion Teithio Llesol yn cefnogi eich ysgol ar ran Llywodraeth Cymru i ddatblygu dogfen cynllunio teithio llesol gryno. Bydd y cynlluniau syml hyn yn eich tywys ar eich ffordd i gynyddu siwrneiau llesol i'r ysgol gan greu lleoedd hapusach, iachach i gymuned eich ysgol.

Beth yw Teithio Llesol?

Mae teithio llesol yn golygu cerdded, beicio ac olwyno ar gyfer teithiau byrion beunyddiol, yn cynnwys teithio i'r ysgol a'r gwaith a chyrchu amwynderau cyfagos. Gall teithio llesol hefyd gynnwys trafndiaeth gyhoeddus a gwasanaethau parcio a theithio.

Pam datblygu Cynllun Ysgol Teithio Llesol?

Nod Llywodraeth Cymru yw i bob ysgol yng Nghymru ddatblygu cynlluniau ysgolion teithio llesol yn fuan. Mae'r manteision yn cynnwys:

- **Gwella Diogelwch:** Mynd i'r afael â phryderon ynghylch diogelwch ar y ffordd yn ystod cyfnodau danfon a chyrchu.
- **Unigolion Iach, Hyderus:** Hwb i weithgaredd corfforol, hybu annibyniaeth a llesiant, brwydro gordewdra ymysg plant yng Nghymru.
- **Gwella Canolbwyntio yn y Dosbarth:** Gwella canolbwyntio a diddordeb disgyblion gan eu bod yn cynnal yr arfer o wneud y 30 munud o ymarfer corff bob dydd a argymhellir.
- **Amrywio Trafndiaeth:** Ehangu opsiynau teithio i'r ysgol.
- **Mynediad at Gyllid:** Sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru. Gan ddechrau yn 2024/2025, bydd ysgolion gyda chynlluniau teithio llesol yn gallu gwneud cais am gyllid Llwybrau Diogelach mewn Cymunedau drwy Awdurdodau Lleol.



J Bewley



Colin Hattersley



Brian Morrison



Sut i fynd ati i ddatblygu eich Cynllun Ysgol Teithio Llesol:

Cam 1: Cwblhau'r 'Ffurflen TEMPLed Cynllun Ysgol' sydd ar gael yma gyda chymorth y PDF '[Esiamplau Gweithgareddau](#)'.

Archwilio mwy ar ein hadnoddau hygyrch am ddim sydd ar gael ar ein gwefan.

Cam 2: Rhannu eich 'Templed Cynllun' wedi'i gwblhau gyda'r Uwch Dîm Rheoli i'w gymeradwyo.

Dechrau meithrin cydberthnasau ag aelodau o gymuned eich ysgol (cymdeithas rhieni ac athrawon, rhieni/gofalwyr), eich awdurdod lleol a chyngorwyr lleol i hwyluso newid.

Ewch draw i'n gwefan am fwy o help.

Cam 3: Gofyn am gefnogaeth i gael mwy o arweiniad.

Cysylltwch â'ch swyddog Cynllun Ysgol Teithio Llesol drwy anfon ebost at activetravelschoolplan@sustrans.org.uk am ragor o gymorth.

Cam 4: Creu tystiolaeth dros gyfnod o amser gan ddefnyddio arolygon, ymarferion mapio, a ffotograffau i gryfhau eich achos wrth ofyn am gyllid.

Mae'n hanfodol creu achos perswadiol dros newid. Mae'n gwella eich tebygolrwydd o sicrhau cyfleoedd cyllido i'ch ysgol, gwelliannau seilwaith yn y dyfodol, ac mae'n dangos eich ymrwymiad i ddatblygiad cynaliadwy i Lywodraeth Cymru ac arolygwyr ysgolion.

Cam 5: Adolygwch eich cynllun o bryd i'w gilydd er mwyn olrhain eich cynnydd a chanfod materion heb eu datrys.

Rhannwch eich Llwyddiant:

Rhannwch eich llwyddiannau wrth ddatblygu cynllun teithio eich ysgol a'i roi ar waith. Drwy rannu eich profiadau, rydych yn ysbrydoli ac yn cynnig mewnwediadau i ysgolion eraill.

I gyfrannu eich stori chi, cwblhewch y templed astudiaeth achos a'i anfon ymlaen at activetravelschoolplan@sustrans.org.uk. Gall eich siwrne ysbrydoli eraill!



Koia Miah



Neil Hanna

